Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol

National **Adoption** Service



# Adroddiad Blynyddol 2025/26

**Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**

# Cynnwys


03 Rhagair y cadeiryddion

04 Gwybodaeth amdanom ni

05 Cyflawniadau allweddol yn 2025/26

06 Gweithredu'r Cynllun

07 Blaenoriaeth A: Y teuluoedd gorau i'n plant mabwysiedig

14 Blaenoriaeth B: Cymorth mabwysiadu gwych, pryd a ble mae ei angen

18 Blaenoriaeth C: Cyswllt iachach trwy wasanaethau teulu biolegol gwell

21 Blaenoriaeth D: Gwell cofnodion mabwysiadu a mynediad at wybodaeth

24 Blaenoriaeth E: Cynnal y seilwaith i ddarparu gwasanaethau a mesurau llywodraethu cadarn

25 Gwaith datblygu arall

26 Gwrando ar ddefnyddwyr ein gwasanaethau

27 Cydweithio â rhanddeiliaid

28 Diweddariad cyllid blynyddol

29 Sylwadau terfynol


South East Wales Adoption Service
Achieving More Together
Gwasanaeth Mabwysiadu Deddwyrain Cymru
Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | North Wales Adoption Service

AdoptionUK
Teulu gyda'n gilydd
Together we're family

Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adoption Mid & West Wales

AFKA CYMRU
Cymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu
Association for Fostering, Kinship and Adoption

Vale, Valleys and Cardiff Adoption | Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd

BARNARDO'S CYMRU
Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.

GWASANAETH MABWYSIADU Bae'r Gorllewin
Western Bay ADOPTION SERVICE

Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant | St David's Adoption Service

# Rhagair y cadeiryddion

## Rydyn ni'n falch iawn o gyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) Cymru ar gyfer 2025/26.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae GMC wedi parhau i arwain rhaglen drawsnewid, gan atgyfnerthu'r ffordd y mae gwasanaethau mabwysiadu yn cael eu darparu ledled Cymru, a'u moderneiddio. Trwy ddull cydweithredol, amlasiantaethol, rydym wedi parhau i ddatblygu system fabwysiadu sy'n fwy cynhwysol ac ymatebol: un sydd wrth wraidd anghenion plant a theuluoedd,  ac yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau teuluoedd sy'n mabwysiadu a phobl ifanc sy'n cael eu mabwysiadu.

Mae gwasanaethau wedi parhau i ffocysu'n gryf ar gefnogi plant wrth iddynt symud i'w teuluoedd newydd, gan weithio'n agos gyda rhieni biolegol, a hyrwyddo arddull fwy agored o fabwysiadu. Mae'r dull hwn yn cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd a chysylltiadau wrth helpu plant i ddeall eu hunaniaeth a'u profiadau cynnar ym mywyd, ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu cymorth parhaus ar ôl mabwysiadu.

Gall pawb fu'n chwarae rhan fod yn falch o'r cynnydd a wnaed wrth greu gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, a'r teuluoedd o'u cwmpas wrth iddynt lywio goblygiadau mabwysiadu gydol oes.

Mae GCM wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Wrth i ni gychwyn ar dymor llywodraethol newydd, rydym yn parhau i ymrwymo i gryfhau'r bartneriaeth hon i sicrhau bod cefnogaeth a buddsoddiad parhaus wrth ddiwygio gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.

Eleni, gwelwn newid sylweddol yn arweinyddiaeth y GCM. Ar ôl 11 mlynedd o wasanaeth ymroddedig, cyhoeddodd ein Cyfarwyddwr, Suzanne Griffiths, ei bod yn ymddeol ddiwedd mis Mawrth 2026. Dyma'r newid cyntaf yn rôl y cyfarwyddwr ers sefydlu'r GMC. Bu Suzanne yn hynod allweddol o ran datblygu a gweithredu'r GMC, gan weithio'n ddiflino i wella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru, ers iddo ddod i fodolaeth. Mawr yw ein diolch iddi. Dymunwn y gorau wrth iddi ymadael dan ragoriaeth MBE am wasanaethau i fabwysiadu: cydnabyddiaeth briodol o'r effaith a greodd.

Estynnwn ein diolch o waelod calon hefyd i'r mabwysiadwyr sydd wedi agor eu cartrefi; y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag ymrwymiad diwyro, a'r cymunedau sy'n parhau i gefnogi'r weledigaeth a rannwn, i wella gwasanaethau mabwysiadu i blant.

Yn yr adroddiad hwn, edrychwn yn ôl ar y cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal ag edrych ymlaen – gyda chefnogaeth barhaus, arloesedd a thosturi – i sut y byddwn yn cydweithio i lywio mabwysiadu yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyd-gadeirydd Annibynnol**
**Bwrdd Llywodraethu Cyfunol y GMC**



**Dr Carolyn Sampeys**
Cyd-gadeirydd Annibynnol



**Y Cyng Jane Tremlett**
Cyd-gadeirydd Annibynnol



# Gwybodaeth amdanom ni

## Crëwyd y GMC er mwyn gwella gwasanaethau i bob un yng Nghymru y mae mabwysiadu yn cyffwrdd â nhw



Daw â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru at ei gilydd dan strwythur tair haen, sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru, iechyd, gwasanaethau addysg ac eraill.

Mae pob un o'r **22 awdurdod lleol** yng Nghymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, ac ar yr un pryd maent yn adnabod y plant hynny y mae cynllun mabwysiadu'n addas yn briodol ar eu cyfer, ac yn gweithio gyda nhw.

**Yn rhanbarthol**, mae awdurdodau lleol yn cydweithio mewn pump cydweithrediaeth ranbarthol i ddarparu ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithrediaeth ranbarthol gysylltiadau â'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg ac maent yn darparu:

- Swyddogaeth asiantaeth fabwysiadu i blant
- Gwasanaeth recriwtio mabwysiadwyr a'u hasesu
- Cwnsela a chymorth i rieni biolegol
- Cyngor a chymorth i oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu
- Gwasanaethau cymorth mabwysiadu. (Mewn ambell ranbarth, caiff y swyddogaeth hon ei rhannu gydag awdurdodau lleol).

**Yn genedlaethol**, mae cyfarwyddwr y GMC, a thîm canolog bach, yn arwain, yn cydlynu, yn rhoi cymorth strategol ac yn galluogi ac ar yr un pryd yn comisiynu rhai gwasanaethau ar gyfer Cymru gyfan.

Am ragor o wybodaeth am fabwysiadu yng Nghymru, ewch i wefan ([adoptcymru.com](adoptcymru.com)).

Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn:

| | |
|---|---|
| **GMCGC** | Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **GMGC** | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru |
| **GMDDdC** | Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru |
| **GMFCCh** | Gwasanaeth Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd |
| **GMBG** | Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin |
| **Dewi Sant** | Gwasanaeth Mabwysiadu Dewi Sant |
| **AUK** | Adoption UK Cymru |
| **ALlau** | Awdurdodau Lleol |
| **Rhanbarthau** | Cydweithrediaethau Mabwysiadu Rhanbarthol |
| **AMG** | Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol |

# Cyflawniadau allweddol

Ym mis Mehefin 2025, cyfarfu Bwrdd Llywodraethu GMC a rhanddeiliaid allweddol i osod y blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth gwasanaethau mabwysiadu nesaf i Gymru.

Arweiniodd hyn at ddatblygu **Mabwysiadu Cymru 2030: Cynllun ar gyfer Cynnydd Pellach**, a fydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2026.



Cynhaliwyd Cynhadledd ddwyflynyddol y GMC ym mis Hydref.

**'Mabwysiadu yng Nghymru: Dysgu o Ymchwil a Phrofiad'**, Denwyd 116 o weithwyr proffesiynol a staff o bob cwr o Gymru yn ogystal â randdeiliaid allweddol o Loegr i wrando ar ystod o areithwyr.

Cyflwynwyd cynllun peilot ar gyfer cyswllt blwch llythyr digidol o'r enw **Cyfnewid Llythyr** ar ddechrau 2026 ar draws y pum Cydweithrediaeth Mabwysiadu Rhanbarthol.

Mae'r platfform, a ddatblygwyd gan Link Maker, wedi'i gynllunio i foderneiddio a rheoli cyswllt ôl-fabwysiadu rhwng teuluoedd mabwysiadu a theuluoedd biolegol, gan gynnig ffordd ddiogel a hyblyg i gyfathrebu, y gellir ei olrhain.

Ym mis Hydref, lansiwyd ymgyrch recriwtio newydd gan y GMC yn dwyn y teitl **'Mae Nawr yn Amser Da….'**.

Hyd yma, mae'r ymgyrch wedi perfformio'n dda trwy hysbyseb ffrydio wedi'i thargedu ar y teledu, Spotify (a ddenodd nifer uchel o wrandawyr), ymgysylltu cryf â'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â chysylltiadau cyhoeddus dwyieithog ledled Cymru.

Ym mis Ionawr, lansiwyd **Canllaw Arfer Da ar Ddod o Hyd i Deuluoedd Mabwysiadol i Blant yng Nghymru**.

Mae'r canllaw hwn a ddatblygwyd gan AFKA Cymru ar gyfer y GMC mewn cydweithrediad a'r holl ranbarthau a'r AMG, yn trafod pob agwedd ar y broses canfod teulu o'r cyfnod cyn trafodion, i'r panel paru /Penderfynwyr Asiantaeth.






Yn 2025, ffurfiodd y GMC bartneriaeth gyda Sam Langley-Swain, awdur llyfrau plant a thad mabwysiadol, i rannu llyfr o'r enw **Eirth Mewn Blancedi**, gyda phob ysgol gynradd a llyfrgell yng Nghymru.

Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

# Gweithredu'r cynllun

Datblygwyd cynllun strategol **'Mabwysiadu Cymru 2025 a Thu Hwnt…'** ar ôl ymgysylltu'n eang â phlant, pobl ifanc  a theuluoedd, gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr gwasanaethau, yn ogystal â thrwy'r 'Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu' a gynhelir yn flynyddol. Ymestynnwyd y Cynllun i 2025/26 am gyfnod o 12 mis er mwyn sicrhau bod yr holl flaenoriaethau yn cael eu bodloni fel a ganlyn:



BLAENORIAETH STRATEGOL A

# Y teuluoedd gorau i'n plant mabwysiedig

Mae'r maes blaenoriaeth strategol hwn yn sylfaenol i wasanaethau mabwysiadu da. Mae llawer wedi'i wneud i wella'r ymarfer yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'i ddiweddaru, ac mae'r GMC wedi parhau i ddatblygu'r gwelliannau hyn a sbarduno arfer mabwysiadu modern ledled Cymru.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2025/26

Yn ystod 2025/26, canolbwyntiodd strategaeth farchnata GMC ar gynyddu ymwybyddiaeth o fabwysiadu modern yng Nghymru, gwella ansawdd ymholiadau gan fabwysiadwyr a chyfnerthu'r hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddeall am anghenion plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu.



Un o'r uchafbwyntiau allweddol oedd lansio'r ymgyrch **Mae Nawr yn Amser Da** yn ystod yr Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol, a oedd yn canolbwyntio ar y rhinweddau a'r profiadau sy'n arfogi pobl i ddod yn rhieni mabwysiadol. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys straeon dilys am fabwysiadwyr o bob cwr o Gymru a chefnogwyd hyn gan ohebiaeth ddwyieithog, cyfryngau darlledu, cyfryngau cymdeithasol a gweithgarwch digidol. Helpodd hyn i greu ymgysylltiad cryf a theimlad cadarnhaol trwy gydol yr ymgyrch.

Fe wnaeth y GMC ymddangos mewn digwyddiadau cenedlaethol sylweddol yn cynnwys **Gŵyl y Gelli** ym mis Mai, **Balchder Cymru** ym mis Mehefin, a'r **Eisteddfod Genedlaethol** ym mis Awst. Fe wnaeth gwasanaethau rhanbarthol ac AMG hefyd ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau lleol a chyfleoedd ymgysylltu mewn cymunedau ledled Cymru.

Parhaodd GMC i gryfhau seilwaith cydweithredu a chyfathrebu, yn cynnwys datblygu Traciwr newydd i Olrhain Digwyddiadau Cymru Gyfan, i gefnogi'r gwaith o gydlynu a hyrwyddo gweithgarwch rhanbarthol a chenedlaethol yn well. Mae gwefan **Adopt Cymru** wedi parhau i weld gwelliannau, a chyflwynwyd digwyddiad hyfforddi cenedlaethol llwyddiannus ar gyfryngau i gydweithwyr a rhanddeiliaid, ac mae ail sesiwn wedi ei chynllunio nes ymlaen yn 2026.









Datblygwyd **Fframwaith Ansawdd a Sgiliau** i ddiffinio'r rhinweddau allweddol i lwyddo wrth fagu plant sy'n cael eu mabwysiadu ac mae'n arf ymarferol sy'n helpu ymarferwyr i asesu a dangos y rhain trwy ddadansoddiad clir, beirniadol. Nod y Fframwaith yw atgyfnerthu cysondeb, barn broffesiynol, a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, wrth gydnabod cymhlethdod mabwysiadu a phwysigrwydd cefnogaeth barhaus i deuluoedd.




Cynhyrchwyd **Canllaw Arfer Da ar Ddod o Hyd i Deuluoedd**, sy'n dwyn y teitl *Ddod o Hyd i Deuluoedd Mabwysiadol a'u Meithrin i Blant yng Nghymru*, ac mae'n nodi fframwaith Cymru gyfan ar gyfer dod o hyd i deuluoedd mabwysiadol, a'u cefnogi, gan bwysleisio cynllunio amserol, wedi'i gydlynu'n dda, asesiadau cryf, a phrosesau cydweithredol i sicrhau lleoliadau sefydlog, gydol oes i blant. Mae'r Canllaw yn tynnu sylw at bwysigrwydd llais y plentyn, cynnal perthnasoedd a hunaniaeth, a darparu cymorth parhaus. Mae'n cydnabod bod mabwysiadu yn broses barhaus, sy'n seiliedig ar berthynas yn hytrach nag un digwyddiad.



## Hyfforddiant Paratoi (GMDDDC)

Aeth mam fiolegol ati i greu fideo am ei phrofiadau mabwysiadu i'w rannu gyda darpar fabwysiadwyr mewn hyfforddiant i'w paratoi. Cafodd y fideo ei groesawu ac roedd yn hynod effeithiol. Bydd yn cael ei gynnwys ym mhob hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan un o'r cyfranogwyr fel a ganlyn:

*"Roedd y fideo gan y fam fiolegol yn hynod deimladwy. Fe wnaeth ein helpu i weld y broses fabwysiadu o'i safbwynt hi, a oedd yn rhywbeth nad oeddem wedi'i ystyried yn llawn cyn y broses hon. Roedd clywed am y profiadau cadarnhaol a negyddol, a'u heffaith gwirioneddol ar ei bywyd, yn agoriad llygad. Fe wnaeth i ni oedi a myfyrio, ac mae'n bendant wedi newid y ffordd rydyn ni'n meddwl am rieni biolegol. Fe wnaeth ein hatgoffa bod mabwysiadu yn rhywbeth sy'n cyffwrdd â phawb dan sylw, ac mae clywed ei stori mor onest ac agored yn rhoi mwy o ddyfnder ac empathi i'r hyn rydyn ni'n ei ddeall."*

# Llinell Amser Anogaeth Trawma a Diwrnod Deall y Plentyn

Mae'r prosesau hyn bellach wedi'u hymgorffori'n llawn yn yr ymarfer ledled Cymru.

**Llinell Amser Anogaeth Trawma**
Mae Llinell Amser Anogaeth Trawma (TNTL) yn gofnod cynhwysfawr, esblygol o brofiadau bywyd plentyn, sy'n cael ei lunio'n bennaf gan y tîm Dod o Hyd i Deuluoedd. Mae'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan weithwyr cymdeithasol, gofalwyr a ffynonellau eraill. Mae'n mapio digwyddiadau allweddol, perthnasoedd, a'r hyn sy'n dylanwadu ar ddatblygiad dros amser. Mae'r rhoi dealltwriaeth strwythuredig o sut y gallai trawma a phrofiadau cynnar fod wedi siapio anghenion ac ymddygiadau'r plentyn. Mae'r TNTL sy'n cael ei ddatblygu o'r pwynt y gwneir penderfyniad i fabwysiadu, a chaiff ei ddiweddaru trwy'r broses; o ddod o hyd i deulu a'u paru, i gefnogi trafodaethau am gysylltu, a pharu, ac i helpu darpar fabwysiadwyr i fyfyrio ar sut beth fyddai magu'r plentyn.

**Diwrnod Deall y Plentyn**
Mae Diwrnod Deall y Plentyn (UTCD) yn ddigwyddiad strwythuredig, amlbroffesiwn sydd wedi ei gynllunio i helpu darpar fabwysiadwyr ddeall profiadau ac anghenion byw plentyn yn sylweddol, a hynny o safbwynt y plentyn. Mae'n dod â gweithwyr proffesiynol perthnasol at ei gilydd i rannu hanes y plentyn yn fanwl. Mae'n galluogi mabwysiadwyr i ystyried y profiadau hynny o safbwynt y plentyn ac archwilio sut y gall digwyddiadau cynnar ym mywyd y plentyn ddylanwadu ar ei ddatblygiad, ei ymddygiad, disgwyliadau oedolion, a'i anghenion yn y dyfodol. Mae'r diwrnod yn canolbwyntio ar fyfyrio ar sut mae bywyd wedi teimlo i'r plentyn, beth sy'n ei gefnogi nawr, a sut y gall y wybodaeth hon lywio cynlluniau pontio a chefnogaeth mewn lleoliad mabwysiadol, gyda'r nod o gyfnerthu'r paru, paratoi yn well, a lleihau'r perygl i'r lleoliad fethu.




## Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Mae **Cofrestr Fabwysiadu Cymru (ARW)**, a reolir gan GMC ar ran Llywodraeth Cymru, yn chwarae rhan allweddol o ran paru ar draws ranbarthau ac asiantaethau, yn enwedig i blant a allai aros yn hirach i gael eu mabwysiadu.

Yn 2025/26, parhaodd ymarferwyr i atgyfeirio plant a mabwysiadwyr yn gyson o fewn yr amserlenni gofynnol, gan ddefnyddio'r Gofrestr yn effeithiol fel offeryn craidd i ddod o hyd i deuluoedd.

Cafodd 259 o blant eu hatgyfeirio at y gofrestr yn 2025/26 ac roedd 328 o blant ar y Gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn, (yn cynnwys 210 yn aros heb gysylltiadau) sy'n gynnydd cyson yn nifer y plant oedd yn aros yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn cyferbyniad, mae nifer y mabwysiadwyr wedi gostwng. Cafodd 90 o deuluoedd eu hatgyfeirio ac roedd 75 ar y Gofrestr ar ddiwedd y flwyddyn.

Er gwaethaf hyn, mae perfformiad o ran paru yn parhau i fod yn gryf Cafodd 155 o blant eu paru (37% drwy'r Gofrestr) a chafodd 82 o deuluoedd mabwysiadol eu paru (28% drwy'r Gofrestr), sy'n dangos gwerth parhaus ARW wrth hwyluso lleoliadau, yn enwedig i blant ag anghenion mwy cymhleth neu grwpiau brodyr a chwiorydd.

Mae gweithgarwch wedi ei dargedu i ddod o hyd i deuluoedd wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig Diwrnodau Gweithgareddau Mabwysiadu, sy'n parhau i greu ymgysylltiad cryf a chanlyniadau, gan gynnwys y nifer uchaf erioed yn cael eu hystyried yn addas i'w paru, yn dilyn un digwyddiad. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, mae ARW wedi atgyfnerthu'r ymarfer trwy fforymau rheolaidd, sesiynau galw heibio misol, newydd, cydweithio â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda'n Gilydd, a hyfforddiant parhaus i wella ansawdd proffiliau a defnyddio system *Link Maker.*





## Mabwysiadu Gyda’n Gilydd

Yn 2025/26, parhaodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda’n Gilydd i gryfhau ei seilwaith a’i waith cydlynu cenedlaethol trwy Gymdeithas Plant Dewi Sant. Llwyddodd y gwasanaeth i ganolbwyntio’n gyson ar adnabod a symud y plant hynny sy’n bodloni’r meini prawf yn eu blaenau, drwy gysylltu’n rheolaidd â phartneriaid rhanbarthol a thargedu allgymorth rhanbarthol. Fe wnaeth hyn helpu i gynyddu atgyfeiriadau mewn rhai meysydd.

Gwelwyd gwelliannau yn y gweithgarwch recriwtio drwy ddwy ymgyrch bwrpasol: **‘Dod yn Deulu’** a **‘No Single Way to Belong’**. Cynhaliwyd yr ymgyrchoedd hyn ochr yn ochr â’r gwaith o ddatblygu strategaeth aml-ffydd, gyda’r bwriad o ehangu amrywiaeth darpar fabwysiadwyr.

Yn weithredol, hwylusodd y gwasanaeth trafodaethau proffilio a pharu parhaus. Archwiliwyd 38 o broffiliau plant ac fe wnaeth lawer fynegi diddordeb yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu a oedd wedi’u targedu. Er bod cynnydd amlwg mewn ymwybyddiaeth, ymgysylltu a gweithgarwch recriwtio, ni chyflawnwyd unrhyw leoliadau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn tynnu sylw at yr heriau parhaus sy’n bodoli o ran dod o hyd i rywun sy’n addas i blant ag anghenion cymhleth iawn, ac mae’n nodi’r angen i ganolbwyntio’n barhaus ar gamu ymlaen o ddiddordeb i leoliad.

### Ymarfer Enghreifftiol (Dewi Sant)

Yn ystod Ail Gam eu hasesiad mabwysiadu, cafodd pâr eu cysylltu â phlentyn 4 oed a gyfeiriwyd at Mabwysiadu Gyda’n Gilydd. Ymatebodd gweithwyr cymdeithasol yn gadarnhaol, a dechreuwyd y cam paru. Rhannwyd gwybodaeth ac aeth trafodaethau cynnar rhagddynt yn dda.

Wrth i’r cwpl agosáu at eu panel cymeradwyo, cawsant newid yn eu hamgylchiadau personol. Yn hytrach na chamu i ffwrdd oddi wrth y plentyn yn gyfan gwbl, fe wnaethant archwilio a oedd modd gofalu am y plentyn mewn trefniant maethu. Gyda chefnogaeth gadarn gan weithwyr proffesiynol, cawsant eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth gan Dewi Sant, ac wrth gynllunio cam hwn yn ofalus, galluogwyd y plentyn i symud atynt i gael gofal.

Yn y pen draw, cymeradwywyd y cwpl gan Dewi Sant ac mae’r plentyn bellach wedi cael ei fabwysiadu ganddynt. Cychwynnwyd hyn o dan y Gwasanaeth Mabwysiadu Gyda’n Gilydd. Gyda chefnogaeth ardderchog a chydweithio da, mae’r plentyn bellach mewn sefyllfa sefydlog.

## Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP)







Mae pob rhanbarth bellach wedi ymgymryd â lleoliadau **Sefydlogrwydd Cynnar Cymru**, felly’n adlewyrchu ymrwymiad cryf, ar y cyd i ymgorffori’r fframwaith yn ymarferol fel ei fod o fudd i’r plant hynny y mae WEP yn briodol iddynt.


Mae Grŵp Hyrwyddwyr WEP yn cyfarfod bob chwarter, i ddarparu cyfle gwerthfawr i ymarferwyr arweiniol o bob rhanbarth ddod at ei gilydd, rhannu profiadau, a myfyrio ar ymarfer. Yn dilyn adborth gan Grŵp Hyrwyddwyr WEP llywiwyd prosiect â ffocws i ddatblygu adnoddau i gefnogi plant gofalwyr WEP ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys stori fetafforaidd, ‘Rhywun Newydd’, a gafodd ei hadrodd o safbwynt brawd neu chwaer, pecyn adnoddau gwaith uniongyrchol, a chyngor i ofalwyr.

Mae’r dudalen we hefyd wedi’i hehangu i gynnwys cyfweliad gyda dau Ymgynghorydd Meddygol sy’n rhan o Asiantaeth, a rannodd eu harbenigedd i gefnogi gofalwyr sy’n ystyried WEP, gan gynnwys cipolwg gwerthfawr ar ofalu am blant yn gynharach, lle gall eu hanes meddygol a’u hanghenion fod yn llai hysbys.

Mae cwrs WEP, i baratoi gofalwyr, yn parhau i gael ei gyflwyno bob deufis ac wrth i brofiad ledled Cymru gynyddu, mae’r hyfforddiant wedi’i gyfoethogi ymhellach gan gyfraniadau gofalwyr, sy’n cefnogi sesiynau trwy rannu eu teithiau mabwysiadu eu hunain drwy WEP.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd chwe sesiwn wybodaeth ar-lein i godi ymwybyddiaeth o WEP ymhlith ymarferwyr. Daeth nifer dda iawn i’r rhain yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn y maes gofal plant, maethu a mabwysiadu, yn ogystal â Gwarcheidwaid a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO), gan ddangos ymgysylltiad cryf ar draws y sector.

## Data mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon





### Atgyfeiriadau i Blant

Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau i ddechrau ond maent wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf, gan arwain at 486 o atgyfeiriadau yn ystod 2025/26.





### Penderfyniadau 'Dylid Lleoli'

Er bod nifer y penderfyniadau 'Dylid Lleoli' wedi parhau i fod yn gyson, maent wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, gyda gostyngiad o 15% yn 2025/26 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




### Gorchmynion Lleoli


Mae nifer y gorchmynion lleoli a wnaed wedi aros rhwng 230 a 273 y flwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda thuedd i gynyddu dros amser. Fodd bynnag, bu gostyngiad o bron i 10% eleni, o gymharu â ffigurau 2024/25.




### Plant a Leolwyd i'w Mabwysiadu

Mae nifer y plant a leolwyd i'w mabwysiadu wedi bod yn gostwng yn raddol dros amser, gyda 198 o blant yn cael eu lleoli yn 2025/26.

## Amserlenni o'r Gorchymyn Lleoli i'w Lleoli i'w Mabwysiadu




Mae'r amser a gymerir i leoli plentyn i'w fabwysiadu o ddyddiad y gorchymyn lleoli yn parhau i fod yn 10.6 mis ar gyfartaledd o yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.


## Plant yn aros

Ar ddiwedd 2025/26, roedd **310 o blant** yn aros i gael eu mabwysiadu. Mae hwn yn gynnydd o 11% ar ffigur diwedd y flwyddyn ar gyfer 2024/25, lle'r oedd **271 o blant** yn aros.

O'r 310 o blant oedd yn aros, roedd gan 58 gysylltiad cryf, roedd rhai yn wynebu oedi neu newidiodd gynllun eraill. Roedd hyn yn gadael 252 o blant yr oedd angen dod o hyd i deuluoedd ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o 16% o gymharu â 2024/25, pan oedd 208 o blant yn chwilio am deulu.




## Ymholiadau cychwynnol i Fabwysiadu





Er bod gostyngiad cyson wedi bod yn nifer yr ymholiadau i fabwysiadu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cynyddodd y nifer 10% eleni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Dechreuwyd ar Asesiadau Mabwysiadwyr




## Mabwysiadwyr wedi'u Cymeradwyo




Er gwaethaf y cynnydd yn nifer yr ymholiadau i fabwysiadu eleni, gwelwyd gostyngiad o bump yn nifer yr asesiadau mabwysiadwyr a ddechreuwyd, i 165 eleni, gan barhau â'r duedd i ostwng dros amser. Mae hyn hefyd yn wir am nifer y cymeradwyaethau, a oedd yn 150 y nifer isaf a adroddwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn dilyn hynny, gostyngodd nifer y **mabwysiadwyr sy'n aros** am leoliad i 84 ar ddiwedd 2025/26, y nifer isaf a adroddwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

## Sut mae'r Rhanbarthau a'r AMG yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon

Mae ffocws parhaus yn parhau i fod ar atgyfnerthu recriwtio, paratoi ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ochr yn ochr â gwella ansawdd y dulliau a'u heffeithiolrwydd.

- Mae GMCGC yn hyrwyddo ei gynnig marchnata trwy gynllunio i uwchraddio'i wefan, ei allu i farchnata'n bwrpasol, a chymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol, wrth gynnal ffrwd recriwtio gadarnhaol ac adolygu'r hyfforddiant paratoi.
- Mae GMFCCh yn adrodd cynnydd yn nifer yr ymholiadau sy'n trosi i fwy o leoliadau. Mae hyn yn adlewyrchu gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, sy'n lleihau oedi i blant.
- Mae GMBG yn parhau i ddefnyddio dull marchnata cadarn, sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac yn blaenoriaethu recriwtio gofalwyr WEP, gyda chymeradwyaethau diweddar ac ymgeiswyr pellach yn symud ymlaen drwy'r broses hon.
- Mae GMGC yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol y Canllaw Arfer Da i Deuluoedd wrth gefnogi arfer mwy myfyriol, dadansoddol sy'n canolbwyntio ar anghenion plant, yn enwedig o ran gwaith hanes bywyd a meithrin cysylltiad.
- Mae GMDDdC wedi atgyfnerthu hyfforddiant paratoi trwy ymgorffori safbwyntiau rhieni geni, sy'n gwella dealltwriaeth mabwysiadwyr ac empathi, ac mae'r adborth yn gadarnhaol.
- Mae Dewi Sant yn adrodd bod nifer sefydlog o fabwysiadwyr cymeradwy ochr yn ochr â nifer dda o geisiadau yn symud yn eu blaenau.
- Mae Barnardos yn parhau i wella ymarfer gan ddefnyddio offer mwy gweledol yn seiliedig ar weithgaredd i ddeall anghenion plant ac ymateb iddynt yn well.

**Enghraifft o leoliad grŵp brodyr a chwiorydd lle nodwyd asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol allanol i ehangu'r gronfa o fabwysiadwyr (GMCGC)**

Nodwyd anghenion y grŵp brodyr a chwiorydd yn glir, gan gynnwys cynnal eu perthnasoedd a sicrhau sefydlogrwydd o fewn y broses paru. Gan gydnabod nad oedd mabwysiadwyr addas ar gael yn fewnol ac er mwyn osgoi oedi, ceisiwyd cael hyd i bariad allanol i'r plant.

Wrth i'r awdurdod lleol a'r asiantaeth gynllunio ar y cyd, llwyddwyd i bontio'n llyfn. Roedd arfer da yn amlwg yn y cynlluniau lleoli strwythuredig a'r broses drawsnewid, gan sicrhau bod plant a mabwysiadwyr yn cael eu paratoi a'u cefnogi'n dda.

Rheolwyd y trawsnewidiad yn ofalus gan y Gweithiwr Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am Ddod o Hyd i Deuluoedd. Roedd cyfathrebu clir rhwng asiantaethau, mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol. Aethpwyd ati'n gynnar i ystyried pecynnau cymorth, gan gynnwys mewnbwn therapiwtig a chymorth mabwysiadu parhaus, er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd yn y lleoliad.

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd meithrin cysylltiadau allanol amserol, cydweithio cadarn rhwng yr asiantaethau, a chynllunio cymorth cynhwysfawr wrth leoli grwpiau o frodyr a chwiorydd. Trwy gadw at ganllawiau cenedlaethol y GMC a chynnal ffocws ar anghenion hirdymor y plant, aeth y lleoliad ymlaen yn gadarnhaol a lleihau'r risgiau o ran tarfu.



BLAENORIAETH STRATEGOL B

# Cymorth mabwysiadu gwych – pryd a ble mae ei angen

Mae GMC yn parhau i lwyddo i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu gwella ledled Cymru, dan arweiniad Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu GMC



## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2025/26

Crëwyd **[Modiwl e-ddysgu ar fabwysiadu ar gyfer ymarferwyr iechyd ac addysg]** er mwyn helpu partneriaid i ddeall rôl mabwysiadu wrth gynllunio sefydlogrwydd, sut mae'n cael ei gyflwyno yng Nghymru a sut y gall ymarferwyr mewn asiantaethau sy'n bartneriaid gefnogi plant a theuluoedd orau yn eu cyd-destun. Mae'r modiwl hwn ar gael ar wefan GMC a chafodd ei rhannu â chydweithwyr yn y maes Iechyd ac Addysg.

Cwblhawyd **ymarfer cwmpasu ar gyfer teuluoedd** yr oedd rhanbarthau ac AMG yn gweithio gyda nhw, mewn perthynas â phobl ifanc 14+ oed. Fe wnaeth hyn nodi sawl thema allweddol i fynd i'r afael â meysydd anghenion yn ystod y cyfnod glasoed hwyr ac oedolion ifanc cynnar, gan gynnwys addysg, cyswllt a Gwaith Taith Bywyd.

Trwy gydweithio â'r holl wasanaethau cymorth mabwysiadu rhanbarthol ar draws y GMC, crëwyd **templed cynllun cymorth ôl-fabwysiadu** newydd. Bydd hyn yn golygu y bydd modd adnabod anghenion cymorth yn well ar ôl gorchymyn mabwysiadu yn ogystal â'r gallu i gynnal adolygiadau amserol.




Cyhoeddwyd **Bwletin Gwaith Taith Bywyd** yn canolbwyntio ar gyngor i fabwysiadwyr wrth iddynt rhannu gwybodaeth taith bywyd gyda'u plant. Mae tudalennau gwe Gwaith Taith Bywyd newydd yn cael eu datblygu. Bydd hyn yn galluogi'r holl deuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gael hyd i fwy o adnoddau, gwybodaeth ac arweiniad. Bydd y rhain yn cael eu lansio yn ddiweddarach yn 2026.

## Gwasanaeth Llwybrau (Tîm Amlddisgyblaeth)

Parhaodd y gwasanaeth Llwybrau i roi cymorth a mynediad at therapïau amlddisgyblaethol i fabwysiadwyr. Canfu adolygiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn fod y model Tîm Amlddisgyblaeth (MDT) newydd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan weithwyr proffesiynol a theuluoedd, a'i fod yn darparu cymorth effeithiol, personol sy'n seiliedig ar drawma. Cafodd y gwasanaeth ei ddisgrifio'n gyson fel gwasanaeth tosturiol ac anfeirniadol, gyda pherthnasoedd therapiwtig cryf, mewnbwn clinigol arbenigol, a chymorth cymheiriaid sy'n helpu teuluoedd i deimlo'n llai ynysig a bod rhywun yn eu deall. Ymhlith y canlyniadau a adroddwyd, mae mwy o hyder ymysg rhieni, gwell dealltwriaeth am anghenion plant, ac amgylcheddau mwy digynnwrf yn y cartref.

Mae perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn yn rhagori ar dargedau. Cafwyd 109 o atgyfeiriadau o bob cwr o Gymru a chynigiwyd gwasanaeth i bob teulu. Cynhaliwyd 473 o sesiynau therapiwtig, gydag ymyriadau strwythuredig yn seiliedig ar anghenion yn gyfystyr â thua 10 sesiwn fesul teulu ar gyfartaledd.




Mae **Cymorth Mabwysiadu (AUK)** hefyd yn cynnig grwpiau cymorth cymheiriaid cymunedol a ledled y wlad ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddi i deuluoedd mabwysiadu a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu ledled Cymru. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant ar Ymwrthedd Di-drais, hunaniaeth yn y cyfnod glasoed ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn yr ystafell ddosbarth.


## Gwasanaeth 'Connected'

Mae gwasanaeth Connected yn parhau i rhoi cyngor, gweithgareddau grŵp a chymorth cymheiriaid i blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu.

Roedd cyfanswm o 216 o bobl ifanc wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn (cyrhaeddwyd 269 ar ei uchaf), gyda 71% yn ymgysylltu a 114 o sesiynau grŵp yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chymorth unigol hyblyg a chyngor hygyrch. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol. Llwyddodd 88.5% o bobl ifanc i wneud cynnydd ystyrlon tuag at eu nodau ac adroddodd 93% o rieni bod y profiadau yn gadarnhaol. Fodd bynnag, effeithiodd bylchau staffio, amrywiad rhanbarthol ac oedi yn y cynnig digidol ar gysondeb a chyrhaeddiad.


Dangosodd mesurau canlyniadau uwch a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, effaith glir ar draws meysydd fel cyfeillgarwch, cyfathrebu, sgiliau cymdeithasol, hyder a sgiliau bywyd. Dengys yr adborth bod boddhad yn uchel, wrth i 73% o bobl ifanc rhoi sgôr o 5* i'r sesiynau ac adroddodd rhieni bod y manteision yn gryf, yn cynnwys gwell hyder a chyfeillgarwch newydd. Mae cyd-gynhyrchu yn parhau i fod yn gryfder, ac wrth ymgysylltu ag oedolion ifanc (18+) ym mis Mawrth 2026 llywiwyd y gwaith o ddatblygu cynnig cymorth cymheiriaid parhaus i oedolion sydd wedi'u mabwysiadu ledled Cymru.

growing together Connected tyfu gyda'n gilydd



## Data mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon

### Gweithgaredd Cymorth Mabwysiadu




Ar ddiwedd 2025/26, roedd 1,338 o blant a phobl ifanc yn cael cymorth mabwysiadu, naill ai drwy asesiad ffurfiol neu drwy Lwybrau a/neu wasanaethau Connected. Mae hyn yn ostyngiad o 17% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan oedd 1,618 o achosion.

Mae'n debygol mai'r rheswm dros y gostyngiad hwn yw oherwydd nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys ffynonellau anffurfiol eraill o gymorth, cyngor a chyfeirio trwy ddulliau eraill, fel 'hybiau' cyngor mabwysiadu rhanbarthol a'r AMG. Roedd 104 o blant a phobl ifanc yn aros am asesiad cymorth mabwysiadu ffurfiol, sy'n gynnydd o 44% o gymharu â 2024/25, pan oedd 72 o blant yn aros.

## Sut mae'r Rhanbarthau a'r AMG yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon

Mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn parhau i ehangu ac arallgyfeirio, gyda phwyslais cryf ar ymyrraeth gynnar, dulliau therapiwtig, a chryfhau rhwydweithiau cymorth i deuluoedd mabwysiadol.

- Mae GMCGC wedi cynyddu capasiti a gwella'r gwaith cydlynu, ochr yn ochr â darparu grwpiau model BUSS®, grwpiau rhieni mabwysiadol, a datblygu darpariaeth newydd yng Nghanolbarth Cymru, wrth fynd ati hefyd i fuddsoddi mewn hyfforddiant staff mewn Gwaith Taith Bywyd Therapiwtig.
- Mae GMFCCh yn parhau i atgyfnerthu ansawdd y gwaith i baratoi mabwysiadwyr trwy hyfforddiant gwell a Gwaith Taith Bywyd Therapiwtig (GTBTh) mewnol.
- Mae GMBG yn dangos model ymyrraeth gynnar sydd wedi'i ddatblygu'n dda, sy'n cynnig ystod eang o gymorth therapiwtig ac ymarferol gan gynnwys rhaglenni magu plant, grwpiau Theraplay®, canolfannau ar gyfer GTBTh a gwaith cyswllt, a mentrau newydd arloesol fel cymorth i bobl ifanc yn eu harddegau ac adnoddau ysgol yn seiliedig ar drawma.
- Mae GMGC yn cynnig cymorth eang, gan gynnwys ymyrraeth gynnar, gwaith therapiwtig, darpariaeth grŵp ac, yn unol â rhanbarthau eraill, cyfle ar ôl 12 mis i deuluoedd gadw cysylltiad ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu.
- Mae GMDDdC yn adrodd canlyniadau cadarnhaol yn sgil y gweithdai prosesu synhwyraidd ar y cyd â phartneriaid iechyd, gan wella gallu rhieni i gefnogi eu plant.
- Mae Dewi Sant yn parhau i ddarparu cymorth parhaus ar ôl mabwysiadu i garfan sefydlog o deuluoedd.
- Mae Barnardos wedi cynyddu ei gynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb ac mae'n mabwysiadu dulliau cyfathrebu mwy creadigol i gefnogi plant a theuluoedd yn well.
- Mae AUK yn hwyluso grŵp cymorth i rieni mabwysiadol, sy'n llywio sgyrsiau heriol am fabwysiadu gyda'u plant. Mae AUK yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynwyr GTBTh rhanbarthol i ddatblygu a hwyluso'r grŵp cymorth.

### Enghraifft o Ymarfer Cymorth Mabwysiadu (GMFCCh):

Mae'r achos hwn yn dangos effaith **Gwaith Taith Bywyd Therapiwtig (GTBTh)** o ran mynd i'r afael â heriau'n ymwneud â hunaniaeth ac emosiynau i berson ifanc sy'n cael cymorth ôl-fabwysiadu o fewn GMFCCh.

Profodd y person ifanc anawsterau oherwydd bylchau a chamddealltwriaeth yn ei hanes cynnar, gan adlewyrchu'r ffaith mai cyfyng oedd y wybodaeth a rhannwyd pan gafodd ei fabwysiadu. Arweiniodd gwybodaeth anghywir a gofidus, yn enwedig am y tad biolegol, at bryder, dryswch a heriau ymddygiadol.

Llwyddodd Swyddog Gofal Cymdeithasol a oedd wedi'i hyfforddi mewn GTBTh i feithrin perthynas ymddiriedus trwy sesiynau 1:1 anffurfiol, a alluogodd iddo drawsnewid yn raddol i waith therapiwtig. Trwy gasglu gwybodaeth fanwl, llwyddwyd i ddatblygu taith bywyd mwy eglur a chydlynol, gyda chefnogaeth pecyn croeso GTBTh.

Gan weithio ochr yn ochr â'r rhieni mabwysiadol llwyddwyd i fynd i'r afael â chamddealltwriaeth a chryfhau eu gallu i gefnogi eu plentyn, yn cynnwys datblygu tosturi at brofiadau'r teulu biolegol.

Arweiniodd yr ymyrraeth at well llesiant emosiynol, perthnasoedd teuluol cryfach, ac ymdeimlad mwy diogel a chadarnhaol o hunaniaeth i'r person ifanc.



BLAENORIAETH STRATEGOL C

# Cyswllt iachach trwy wasanaethau teulu biolegol gwell

Fel rhan o wasanaeth mabwysiadu modern i Gymru, mae’r GMC wedi parhau i ganolbwyntio ar wella’r cyswllt rhwng y plant mabwysiedig â’u teuluoedd biolegol (rhieni, brodyr a chwiorydd biolegol, a pherthnasau eraill).



## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2025/26




Mae’r [Canllaw Arfer Da Cyswllt] wedi ei ymgorffori’n llawn yn yr ymarfer ledled Cymru. Nod y canllaw yw sicrhau bod y ffocws ar les y plentyn trwy gydol ei oes pan gytunir ar gynllun cyswllt a bod y cyswllt y cytunwyd arno yn cael ei gefnogi a’i adolygu i sicrhau ei fod bob amser er ei bennaf les.

I gefnogi’r Canllaw Arfer Da, datblygwyd [Canllawiau a’r Pecyn Cymorth Cyswllt].

i gynorthwyo gyda’r gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau ar y pwynt pan ystyrir opsiynau parhaol ar gyfer plentyn am y tro cyntaf. Datblygwyd **rhaglen hyfforddi** ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ddefnyddio’r arf a datblygwyd canllawiau a’u cyflwyno i 97 o bobl a fynychodd dros ddwy sesiwn ym mis Mawrth 2026.

Mae’r Cydweithrediaethau Mabwysiadu Rhanbarthol wedi parhau i ehangu eu cynnig o gyfleoedd strwythuredig ar ffurf **‘cadw mewn cysylltiad’** ar gyfer rhieni biolegol a mabwysiadwyr pan fydd cerrig milltir allweddol. Mae’r cyfleoedd hyn a ddeilliodd o [Canllaw Arfer Da ar Gymorth Mabwysiadu y GMC], yn cynnig cyfle gwerthfawr i wasanaethau gadarnhau bod plant yn ymgartrefu’n dda gyda’u teuluoedd mabwysiadol a chyfle i ganfod unrhyw broblemau sy’n dod i’r amlwg yn gynnar. I rieni biolegol, mae’r cyfleoedd hyn hefyd yn cynnig lle i fyfyrio ar yr hyn sy’n aml yn gyfnod arbennig o heriol, ochr yn ochr â mynediad at gymorth priodol a’r cyfle i drafod unrhyw faterion sy’n ymwneud â chyswllt parhaus â’u plentyn a mynd i’r afael â nhw.

Eleni, comisiynwyd system ddigidol ar ffurf cynllun peilot am ddim i gefnogi cyswllt. Mae **Cyfnewid Llythyr** yn cael ei weithredu ar draws y pum cydweithrediad mabwysiadu rhanbarthol i gefnogi gyda chysylltiad blwch llythyr electronig.

Sefydlwyd **grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyswllt** ar ddechrau 2026. Yn unol ag argymhellion [Adroddiad Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus ar Argymhellion ar gyfer Arfer Gorau wrth Fabwysiadu] (Saesneg), mae’r grŵp yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, o weithwyr proffesiynol i’r rhai sydd â phrofiad byw, a fydd yn cydweithio i foderneiddio cyswllt wrth fabwysiadu.

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd arolwg gan Llywodraeth Cymru (gyda chefnogaeth ADSS Cymru) i’r 22 awdurdod lleol i asesu effaith y newidiadau posibl a ddisgwylir gan y farnwriaeth, yn ymwneud â chyswllt. Er y nodwyd bod mwy o graffu ar drefniadau cyswllt ochr yn ochr â defnydd cadarnhaol o ganllawiau’r GMC a’r pecyn cymorth, nid oedd unrhyw dystiolaeth o oedi o ran caniatáu Gorchmynion Lleoli neu Fabwysiadu yn ôl yr ymatebion a dderbyniwyd.

### Ymarfer Enghreifftiol (GMFCCh)

Roedd gan E (sydd erbyn hyn yn 20, wedi’i fabwysiadu) a’r brodyr a chwiorydd K (25) a C (23) (y ddau mewn gofal maeth hirdymor) gysylltiad blwch llythyr cyfyngedig yn hanesyddol. Yn 2020, gofynnodd Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) K, i archwilio cyswllt er mwyn ailsefydlu perthynas y brodyr a chwiorydd. Arweiniodd hyn at GMBG yn trefnu gweithiwr cyswllt ôl-fabwysiadu.


Canolbwyntiodd y gwaith cychwynnol ar gefnogi E (a oedd yn 15 oed ar y pryd) a’r mabwysiadwr i ddeall ei gefndir yn well, gan gynnwys rhannu gwybodaeth therapiwtig o’u cofnodion mabwysiadu, gyda’r nod o fynd i’r afael â bylchau yn hanes ei fywyd.

Cafodd y cyswllt blwch llythyr ei adfer yn llwyddiannus ac aeth ymlaen yn raddol i gyfnewid lluniau ac anrhegion, a gefnogwyd yn ddiweddarach gan asesiad cyswllt ffurfiol i reoli risgiau hanesyddol sy’n gysylltiedig â’r teulu biolegol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, datblygodd hyn i fod yn gyswllt uniongyrchol (wyneb yn wyneb) â chymorth, a hynny ar y cyd ag Ymgynghorydd Person Ifanc. Mae’r fath ddull sefydlog, a rheolwyd yn ofalus wedi galluogi’r brodyr/chwiorydd i feithrin perthnasoedd cynnes, cadarnhaol, ac erbyn hyn maent yn gallu cynnal cyswllt annibynnol.

## Data mewn perthynas â’r flaenoriaeth hon

### Trefniadau cyswllt yn ôl nifer a math




Roedd gan bob plentyn a leolwyd i’w mabwysiadu yn ystod y flwyddyn, gynllun ar gyfer trefniadau cyswllt. Roedd gan y mwyafrif (64%) gynllun ar gyfer cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol, ac roedd gan 35% gyswllt anuniongyrchol yn unig.

## Sut mae’r Rhanbarthau a’r AMG yn mynd i’r afael â’r flaenoriaeth hon

Mae newid amlwg tuag at wella trefniadau cyswllt a’u a moderneiddio, ac mae mwy o bwyslais ar cynllunio cynnar, gyswllt uniongyrchol, a gwell cefnogaeth i deuluoedd mabwysiadol a theuluoedd biolegol.

- Mae GMCGC yn ymgorffori’r defnydd o arf cynllunio cyswllt GMC mewn prosesau canfod teuluoedd a gwneud penderfyniadau, gan flaenoriaethu cyswllt uniongyrchol o’r cychwyn cyntaf.
- Mae GMFCCh yn parhau i hyrwyddo cyswllt ar bob cam o’r daith leoli er gwaethaf yr heriau o ran adnoddau, ochr yn ochr â rhoi cymorth unigol a chymorth grŵp parhaus i deuluoedd.
- Mae GMBG wedi sefydlu tîm cyswllt ôl-fabwysiadu pwrpasol, sy’n galluogi trefniadau mwy hyblyg, yn enwedig ar gyfer cyswllt â brodyr a chwiorydd, gyda chefnogaeth cyfleoedd cynnar i gadw mewn cysylltiad ac ymgynghoriadau rhithwir.
- Mae GMGC yn adrodd bod integreiddio canllawiau Arfer Da yn helpu mabwysiadwyr i fod yn fwy agored i gyswllt uniongyrchol.
- Mae GMDDdC yn gweld newid mewn ymarfer ar ôl cyflwyno hyfforddiant moderneiddio, gyda dulliau mwy ystyriol o ran paru ac enghreifftiau o gyswllt fideo â chymorth rhwng plant, mabwysiadwyr, a theuluoedd biolegol.
- Mae Dewi Sant yn parhau i ddatblygu cefnogaeth gan gymheiriaid a gweithwyr proffesiynol drwy ddigwyddiadau teuluol rheolaidd ledled Cymru.
- Mae Barnardos yn defnyddio dulliau mwy creadigol, gan gynnwys fideos teulu biolegol, i atgyfnerthu dealltwriaeth ac ymgysylltu ynglŷn â chyswllt.

### Ymarfer Enghreifftiol (Barnardo’s)

Roedd teulu yn awyddus i sicrhau bod eu plentyn yn cael ymyrraeth arbenigol briodol. I ddechrau, roedd mam fiolegol y plentyn yn teimlo nad oedd yn gallu dod i gyfarfod, felly argymhellodd yr asiantaeth naill ai cyfarfod gyda’r neiniau a theidiau neu, yn ddelfrydol, eu gwahodd mewn ffordd a allai gefnogi’r fam fiolegol i ddod. Yn y pen draw, aeth y cyfarfod yn ei flaen gyda’r fam fiolegol a’r neiniau a theidiau ar ochr y fam. Er ei fod yn heriol i bawb a gymerodd ran, profodd i fod yn hynod werthfawr. Rhannwyd gwybodaeth bwysig a chafodd y rhieni mabwysiadol mwy o ddealltwriaeth am hanes y teulu biolegol felly datblygwyd mwy o dosturi.

BLAENORIAETH STRATEGOL D

# Gwell cofnodion mabwysiadu a mynediad at wybodaeth

Fel rhan o'r newid i wasanaeth mabwysiadu mwy modern yng Nghymru, mae'r holl wasanaethau perthnasol yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth a chofnodion personol i bobl o bob oedran sy'n cael eu mabwysiadu, a bod gwelliannau o ran eu storio a mynediad atynt yn rhan hanfodol o arfer da.



## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2025/26

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth is-grwp **Mynediad at Gofnodion Geni a Gwasanaethau Cyfryngu** y GMC barhau i gyfarfod i atgyfnerthu'r ymarfer yn genedlaethol, gwella cysondeb, a datblygu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi datblygiad gwasanaethau ledled Cymru yn y dyfodol.

Maes allweddol a gyflawnwyd oedd datblygu **canllawiau cenedlaethol ac adnoddau hygyrch** i gefnogi ymarferwyr a'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae canllaw cais am fynediad at ddata gan y testun wedi cael ei adolygu'n sylweddol a'i ddiweddaru i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn egluro hawliau, ac yn rhoi mwy o fanylion ynghylch cofnodion mabwysiadu. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd taflen sy'n addas i bobl ifanc er mwyn gwella hygyrchedd a'r gallu i ddeall hawliau a phrosesau wrth gyrchu cofnodion. Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau hyn yn gam pwysig tuag at ymarfer mwy cyson, tryloyw a chanolog i'r defnyddiwr.

Cynhaliwyd **arolwg o wasanaethau Mynediad at Wybodaeth Fabwysiadu** (AAI) ledled Cymru, i gasglu data ynghylch amseroedd aros, lefelau staffio a nifer yr achosion. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn tynnu sylw at y cynnydd yn y galw yn enwedig ar ôl i'r gwaith gychwyn[1], ochr yn ochr ag amrywiad mewn capasiti rhanbarthol a chymhlethdod yr achosion. Mae'r gwaith hwn wedi atgyfnerthu'r gallu i lywio cynllunio strategol a chaiff ei rhannu â Rheolwyr Mabwysiadu Rhanbarthol i gefnogi trafodaethau yn y dyfodol ynghylch adnoddau a chyllid.

Mae gwaith ar y gweill i safoni terminoleg a chasglu data er mwyn galluogi cymhariaeth fwy cywir ar draws y rhanbarthau. Yn ogystal, bydd datblygu rhestr gyswllt ganolog ar gyfer asiantaethau, archifau a deiliaid cofnodion yn gwella effeithlonrwydd o ran cael mynediad at gofnodion hanesyddol a lleihau oedi, yn enwedig mewn achosion cymhleth.

Mae llinyn waith sylweddol wedi canolbwyntio ar atgyfnerthu'r fframwaith cyfreithiol ac ymarfer ar gyfer achosion ar ôl iddynt gychwyn. Mae gweithgor pwrpasol yn gwneud cynnydd sylweddol o ran addasu canllawiau a gynhyrchwyd yn Lloegr gan y prosiect Gwella Gwasanaethau Mabwysiadu i Oedolion (IASA), eu datblygu a'u halinio â deddfwriaeth Cymru. Mae'r canllawiau bellach yn ymgorffori ymarfer ac astudiaethau achos yng Nghymru, gan gefnogi ymagwedd fwy eglur a chyson at waith ôl-18 cymhleth.

[1] *The Disclosure of Adoption Information (Post-Commencement Adoptions) Regulations 2005*

## Gwasanaeth 'Mynediad at Gofnodion' (achosion cyn 1976)

Mae'r gwasanaeth Mynediad at Gofnodion sy'n cael ei ddarparu gan Dewi Sant ac Adoption UK yn darparu cynnig integredig, sy'n canolbwyntio ar y person, yn cyfuno mynediad at gofnodion, cymorth cyfryngol ac ymyrraeth therapiwtig. Yn 2025–26, cefnogodd Dewi Sant 21 o Achosion Mynediad at Gofnodion Geni  a 29 achos cyfryngol, gyda chyfnod o tua wyth wythnos ar gyfartaledd, o'r cyfnod y cafwyd y wybodaeth i'r cyfnod rannu adborth, gan leihau amseroedd aros yn sylweddol.


Mae model therapi a chymorth cymheiriaid arbenigol Adoption UK yn ategu at y cymorth ymarferol hwn, y cafodd 14 eu hatgyfeirio ato yn ystod y flwyddyn a darparodd hyd at 200 o oriau therapi a 100 o oriau cymorth cymheiriaid.

Ar y cyfan, mae'r bartneriaeth yn cynnig gwasanaeth cyfannol sy'n diwallu anghenion ymarferol ac emosiynol oedolion sy'n cyrchu cofnodion mabwysiadu, gyda chanlyniadau cryf ond rhai heriau parhaus o ran cyfeintiau atgyfeirio ac amseroedd aros yn y cyfnod cynnar.



## Data mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon

### Nifer y ceisiadau am fyendiad at gofnodion geni yng nghymru gyfan




Gwelwyd cynnydd o 40% yn nifer y ceisiadau am fynediad at gofnodion geni eleni. Cafwyd cyfanswm o 211 o geisiadau ledled Cymru. Mae hwn yn ddarlun cadarnhaol, yn dilyn dirywiad yn y blynyddoedd blaenorol.

## Sut mae'r Rhanbarthau yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon

Mae ffocws parhaus ar atgyfnerthu mynediad at gofnodion a gwasanaethau cyfryngol, ochr yn ochr ag ymdrechion i reoli'r galw a lleihau amseroedd aros wrth wella ansawdd y cymorth.

- Mae GMCGC wedi datblygu dull strwythuredig gan ddefnyddio ymarferwyr arweiniol gyda chefnogaeth gweinyddwyr hyfforddedig i reoli chwiliadau, gyda rhestrau aros yn cael eu blaenoriaethu yn ôl yr angen. Cefnogir hyn drwy atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Mynediad at Gofnodion.
- Mae GMFCCh wedi datblygu gwybodaeth ac arbenigedd yn y maes hwn ac wedi parhau i weithio i leihau rhestrau aros a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar anghenion.
- Mae gan GMBG ymagwedd ddeinamig at gael mynediad at achosion sydd angen mynediad at gofnodion, ac mae ceisiadau am ganiatâd a ffeiliau yn cael eu gwneud ar unwaith er mwyn lleihau amseroedd aros.
- Mae GMGC wedi adolygu'r gwasanaeth ac ymateb trwy gynyddu capasiti staffio a datblygu arbenigedd gweithlu'r dyfodol i gryfhau'r gallu i gyflawni a lleihau rhestrau aros.
- Mae GMDDdC yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dewi Sant i gefnogi mynediad at gofnodion geni.

### Enghraifft o waith Mynediad at Gofnodion gwaith cyfryngu ar draws y gwledydd gwahanol (GMGC)

Cefnogodd GMGC ewythr oedd yn ceisio olrhain ei nai, Michael, a oedd wedi'i fabwysiadu yn y 1950au. Priododd y rhieni biolegol yn ddiweddarach a symud i America, gan gadw bodolaeth y plentyn yn gyfrinachol rhag eu plant eraill. Ar ôl i'r rhieni biolegol farw, aeth yr ewythr ati i gysylltu â GMGC, ac er gwaethaf heriau cymhleth yn ymwneud â sawl asiantaeth a sefydliadau crefyddol y tu allan i Gymru, llwyddodd y tîm i ddod o hyd i'r nai. Gyda chefnogaeth ymchwilwyr gwirfoddol a mewnbwn gan waith cymdeithasol ymroddedig, sefydlwyd y cyswllt yn ofalus. Fe wnaeth hyn arwain at gyfres o gyfarfodydd gydag aelodau'r teulu yn America ac yn y pen draw, aduniad yng Ngogledd Cymru. Yn ddiweddarach, cofnododd Michael ei brofiad yn ei lyfr, A Boy Named Michael, gan fynegi ei ddiolch dwysaf i GMGC am ei helpu i ailgysylltu â'i frodyr a'i chwiorydd ac adennill rhan bwysig o'i hunaniaeth.

BLAENORIAETH STRATEGOL E

# Cynnal y seilwaith i ddarparu gwasanaethau a mesurau llywodraethu cadarn

Mae hyn wedi sicrhau bod y GMC a Maethu Cymru yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus, gan sicrhau buddsoddiad parhaus yn y seilwaith, a threfniadau llywodraethu newydd.

## Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 25/26

Cyfarfu'r Cydbwyllgor Cenedlaethol Mabwysiadu sy'n llywodraethu'r GMC a Maethu Cymru ddwywaith yn 2025/26. Ymhlith y prif faterion a drafodwyd oedd craffu ar gyllidebau dangosol a chostau cynnal, diweddariadau ar drefniadau archwilio a threfniadau ariannol cenedlaethol, a sicrwydd ar berfformiad a chynllunio mabwysiadu. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau cworwm hefyd, a arweiniodd at Weithred Amrywio i gytundeb y Cydbwyllgor.

Ar ôl ei gymeradwyo yn y Cydbwyllgor, fe wnaeth y 22 llywodraeth leol lofnodi'r **Cytundeb Cynnal** gyda Chyngor Caerdydd.

Cyfarfu **Bwrdd Llywodraethu'r GMC** ar bum achlysur yn 2025/26. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ddatblygu'r cynllun strategol newydd o fewn cyd-destun cyfyngiadau ariannol, cynnydd o ran y galw ac o ran cymhlethdod. Ymhlith y materion allweddol roedd gostyngiad o ran recriwtio mabwysiadwyr, bwlch cynyddol rhwng nifer y plant a'r mabwysiadwyr sydd ar gael, ac oedi yn y system sy'n effeithio ar amserlenni. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen am dargedu'r recriwtio yn fwy, dadansoddi perfformiad yn fwy cadarn a gweithio ar y cyd, wrth barhau i wella cymorth mabwysiadu, darpariaeth draws-sector (Iechyd ac Addysg), a defnyddio data, ymchwil a chanfyddiadau arolygu i sbarduno gwella gwasanaethau.

Cyfarfu **is-grwpiau y GMC** yn rheolaidd ac mae pob un ohonynt yn cael eu cadeirio gan gynrychiolydd rhanbarthol neu AMG.

# Gwaith datblygu arall

Comisiynodd y GMC a Maethu Cymru **Adolygiad Llenyddiaeth** i ganfod cymhellion, y rhwystrau a'r canfyddiadau cyhoeddus a rennir ar draws mabwysiadu a maethu. Nododd y canfyddiadau rai camdybiaethau cyhoeddus, cymhlethdod cynyddol ac effaith ffactorau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Nododd yr adolygiad ddiffyg tystiolaeth gyfredol ar y gronfa bosibl o fabwysiadwyr a gofalwyr maeth. Nododd feysydd i'w hystyried yn strategol, fel aliniad agosach o ran negeseuon ac ymgysylltu rhwng maethu a mabwysiadu, wrth gynnal gwahaniaethau clir rhwng y ddau lwybr. Cytunwyd bod angen ymchwil bellach ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid, cyn mynd ati i weithredu unrhyw newidiadau.

Dechreuodd y gwaith ar ddatblygu **dangosfwrdd perfformiad rhyngweithiol a llwyfan adrodd** ar gyfer y GMC. Mae hyn wedi cynnwys adolygu holl fesurau perfformiad y GMC, gyda'r bwriad o ddylunio'r system a'i datblygu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.




Diweddarwyd **Adroddiad Mabwysiadu Plant (CAR B)** Coram BAAF, gyda chynllun peilot yn rhedeg gyda chwe awdurdod lleol yng Nghymru o fis Gorffennaf 2025. Mae'r adroddiadau cynnar yn nodi bod y fformat newydd yn ddefnyddiol yn ôl ymarferwyr.

Lansiodd y GMC fenter newydd i gefnogi plant ar eu taith fabwysiadu trwy hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth ac empathi ymhlith plant oedran ysgol gynradd. Mewn partneriaeth â Samuel Langley-Swain awdur llyfrau plant a thad mabwysiadol, dosbarthwyd llyfr darluniadol dwyieithog, **Eirth mewn Blancedi**, ledled Cymru i helpu plant ifanc i archwilio themâu fel perthyn, hunaniaeth a theulu. Dosbarthwyd y llyfr i bob ysgol gynradd a llyfrgell ledled Cymru, ochr yn ochr ag adnoddau dysgu ategol. Nod y fenter yw darparu arf ystyrlon i ysgolion i annog sgyrsiau cynhwysol, cryfhau llythrennedd emosiynol ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, a sicrhau bod plant wedi'u mabwysiadu a phrofiad o ofal yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu deall a'u cefnogi.

Yn dilyn gwerthusiad cenedlaethol o 37 achos o **darfu ar fabwysiadu 'cyn- gorchymyn'** rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025 nodwyd materion ailadroddus sy'n gysylltiedig ag anghenion cymhleth y plant, parodrwydd mabwysiadwyr, pontio a ffactorau'n ymwneud â'r system. Thema allweddol oedd y bwlch rhwng disgwyliadau mabwysiadwyr a realiti magu plant, gyda llawer yn teimlo'n amharod er gwaethaf yr hyfforddiant, ochr yn ochr â heriau wrth gymhwyso dulliau magu plant therapiwtig a chael mynediad llawn at gymorth. Roedd trawsnewidiadau a pherthnasoedd (yn enwedig gyda gofalwyr maeth) yn amrywiol, ac roedd oedi yn y system a materion cydlynu yn effeithio ar sefydlogrwydd. Mae argymhellion cychwynnol yn canolbwyntio ar gryfhau paratoadau, gwella prosesau paru a chyn cyfarfod, a gwella cefnogaeth ac eglurder i fabwysiadwyr a gofalwyr maeth. Disgwylir adroddiad llawn yn ddiweddarach yn 2026.

# Gwrando arnoch chi




*Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg wrth ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i lywio blaenoriaethau'r GMC ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Strategol Mabwysiadu Cymru 2030.*

Cynhaliwyd Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu ym mis hydref eleni, gan ddod ag aelodau o'r gymuned fabwysiadu at ei gilydd i archwilio anghenion cymhleth a chydgysylltiedig plant mabwysiedig, yn benodol mewn perthynas â thrawma, niwrowahaniaeth ac ymlyniad, a'r heriau y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gymorth amserol, cydgysylltiedig.

Ymhlith y materion allweddol a godwyd roedd oedi mewn asesiadau iechyd, gwasanaethau tameidiog, bylchau yn nealltwriaeth broffesiynol a rhwystrau o fewn systemau addysg, yn aml yn gofyn i rieni ddadlau'n gryf am gefnogaeth.

Yn gyffredinol, pwysleisiodd trafodaethau yr angen am ymyrraeth gynharach, rhannu gwybodaeth yn well, a dull mwy cydgysylltiedig, sy'n seiliedig ar drawma ar draws gwasanaethau iechyd, addysg a mabwysiadu.

Fe wnaeth Baromedr Mabwysiadu eleni dynnu sylw at foddhad cryf ymhlith mabwysiadwyr newydd ond mwy o heriau i deuluoedd sefydledig, gyda 39% yn nodi straen difrifol. Er bod cefnogaeth yn effeithiol pan gafodd ei gyrchu, mae materion yn parhau i fodoli ynglŷn â chysondeb a phrydlondeb, yn enwedig yn y gwasanaethau addysg ac iechyd meddwl.

## Cŵynion

Adroddodd y Cydweithrediaethau Mabwysiadu Rhanbarthol 16 o gŵynion yn 2025/26. Mae'r cŵynion hyn yn parhau i rhoi cipolwg gwerthfawr i feysydd ymarfer sydd angen eu gwella ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Materion sy'n ymwneud â chyfathrebu, gyda rhai mabwysiadwyr a theuluoedd yn adrodd negeseuon aneglur/anghyson, oedi o ran ymweliadau dilynol, a diffyg tosturi i un ymholwr mewn un cyswllt allweddol. Mewn ymateb i hyn, mae gwasanaethau wedi cymryd camau i atgyfnerthu prosesau cyfathrebu, gan gynnwys neilltuo pwyntiau cyswllt pwrpasol ac atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch ymarfer proffesiynol.
- Rheoli trefniadau cyswllt, yn enwedig cyswllt blwch llythyr, gan gynnwys oedi neu dorri trefniadau y cytunwyd arnynt, a arweiniodd mewn rhai achosion, at gryn effaith emosiynol sylweddol ar aelodau'r teulu biolegol a theuluoedd mabwysiadu. Mae'r achosion hyn wedi atgyfnerthu pa mor bwysig yw cytundebau clir, ffurfiol ar y pwynt lleoli, ochr yn ochr â systemau cadarn i fonitro a chynnal cyswllt.
- Adroddodd rhai teuluoedd anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau amserol neu briodol, sy'n gysylltiedig â chymorth ar ôl mabwysiadu. Er bod nifer o'r achosion hyn wedi'u datrys trwy gymorth ychwanegol, maent yn tynnu sylw at yr angen i gynllunio'n fwy rhagweithiol a chyfathrebu'n gliriach ynghylch y cymorth a'r hawliau sydd ar gael.
- Codwyd hefyd, bryderon yn ymwneud â phrosesau asesu, cymeradwyo a pharu, gan gynnwys anfodlonrwydd â chanlyniadau asesu, cynnwys Adroddiadau Darpar Fabwysiadwyr a'r defnydd ohonynt, a thrin penderfyniadau cysylltu a pharu. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r cwynion hyn wedi canolbwyntio ar wella tryloywder, sicrhau bod mabwysiadwyr yn cael eu paratoi a'u cefnogi'n briodol trwy gydol y broses, a chyfnerthu'r cydweithio rhwng timau mabwysiadu a gwasanaethau plant.

# Cydweithio â rhanddeiliaid

Eleni, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru gynnal rhaglen **arolygiadau rhanbarthol** ledled Cymru. Yr arolygiadau hyn yw'r arolygiadau mabwysiadu cynhwysfawr cyntaf ers sawl blwyddyn ac maent yn adlewyrchu rhaglen waith sylweddol ar draws y gwasanaeth. Disgwylir i adroddiad trosolwg cenedlaethol yn ddiweddarach yn 2026, a fydd yn tynnu ynghyd yr hyn a ddysgwyd a'r themâu. Mae'r Rhanbarthau yn bwrw ymlaen â'r gwaith i ymateb i ganfyddiadau'r arolygiadau drwy eu cynlluniau gweithredu lleol. Mae'r GMC wedi parhau i ymgysylltu'n agos â **Llywodraeth Cymru**, yn enwedig mewn perthynas â chyllid a datblygu polisi.

- Profodd y cyfarfodydd i sicrhau trefniadau cyllido mwy cynaliadwy i fod yn gynhyrchiol. Llwyddodd Llywodraeth Cymru i sicrhau cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer cyfnod grant o ddwy flynedd o Ebrill 2026 i fis Mawrth 2028.
- Ochr yn ochr â thrafodaethau ariannu, mae'r GMC wedi cyfrannu at ystod o ymgynghoriadau a datblygiadau o ran polisïau, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i reoliadau maethu, mabwysiadu a gwarcheidiaeth arbennig, cynigion rhianta corfforaethol, a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'r polisi **Nid er Elw**.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y GMC mewn trafodaethau cynnar ar ymestyn cyfnodau cadw cofnodion mabwysiadu o 75 i 100 mlynedd, ac ar fân ddiwygiadau i reoliadau mabwysiadu.
- Mae gweithio'r strategol mewn partneriaeth yn parhau i fod yn nodwedd allweddol o'r berthynas, gyda'r GMC yn cyfrannu at gynlluniau tymor hwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant drwy weithdai cenedlaethol a chyfranogiad parhaus yn y grwpiau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar warcheidiaeth arbennig, rhianta corfforaethol a datblygu'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach i ystyried argymhellion adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (PLWG). Ymgynghorwyd â rhanbarthau ac AMG ynghylch y camau arfaethedig, a mapiwyd y rhain i symud ymlaen ag argymhellion allweddol a chynllunio yn y dyfodol o fewn y cynllun strategol newydd.
- Fe wnaeth aelodau O Dîm Canolog y GMC ac AUK barhau i gyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cymru i drafod cynigion i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu. Roedd hyn yn cynnwys y cyfle i gefnogi plant sydd wedi'u mabwysiadu yn well o ran cael mynediad at ddarpariaeth addysgol briodol, tra hefyd yn atgyfnerthu'r ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu cydnabod o fewn y polisi addysg. Mae hyn wedi canolbwyntio'n arbennig ar wella data, dulliau ariannu wedi'u targedu'n fwy, a mwy o ymwybyddiaeth mewn ysgolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyfforddiant newydd i weithwyr proffesiynol ac eiriolaeth barhaus i wella gwelededd a chanlyniadau i ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu.

Gwnaed cysylltiadau â chysylltiadau **Iechyd** a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru i archwilio rhai o'r rhwystrau y gall plant mabwysiedig eu hwynebu wrth gael mynediad at CAMHS a gwasanaethau niwro-ddatblygiadol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu llwybrau cliriach, hyrwyddo cydweithio cryfach, a darparu mewnbwn arbenigol yn gyson.

Parhaodd Tîm Canolog y GMC i gwrdd â'r pum **Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol a thri cynrychiolydd AMG** yn fisol drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd y pum Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyfarfodydd cyfatebol AMG.





# Diweddariad cyllid blynyddol

Darperir y cyllid craidd ar gyfer y swyddogaethau cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol o frigdoriad o'r Grant Cynnal Refeniw (sydd ar gael drwy CLILC).

Y brigdoriad a ddyrannwyd ar gyfer 2025/26 oedd £524k, sy'n ffurfio 14% o gyfanswm y gyllideb genedlaethol, sef £3,736,195. Roedd gweddill y gyllideb genedlaethol yn cynnwys cymorth grant Llywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau mabwysiadu. Mae cyfran sylweddol o'r gyllideb genedlaethol yn cael ei chyfeirio at ranbarthau ac AMG.

Mae manylion y ffynonellau incwm a'r gwariant ar gyfer 2025/26 yn y tabl isod. Mae cyllid grant yn ategu at y costau Canolog, a ariennir drwy CLILC, i ariannu swyddi a rennir a chostau ychwanegol fel taliadau cynnal am wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod sy'n lletyo, sef Cyngor Caerdydd. Bydd y tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen fel cyllid wrth gefn.

| FFRWD INCWM | DYRANIAD 2025/26 | CYFANSWM GWARIANT 2025/26 | DIBEN |
|---|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw (Brigdoriad CLILC) | £524,528 | £745,734 | Costau Cydlynu Cenedlaethol |
| Cyllid grant (cydlynu grantiau Maeth Cymru a'r GMC) | £244,957 | | |
| Grant Llywodraeth Cymru (Cymorth Mabwysiadu) | £2,300,000 | £2,300,000 | Caiff ei gyfeirio at y Rhanbarthau ac i AMG i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu |
| Grant Llywodraeth Cymru (Adopt Cymru a Thu Hwnt) | £689,577 | £689,577 | Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata Cenedlaethol, gyda'r gweddill yn cael ei ddefnyddio i gaffael gwasanaethau'r AMG a thalu rhai costau canolog sy'n ymwneud â'r cynllun. |
| Grant Llywodraeth Cymru (Cofrestr Fabwysiadu Cymru) | £222,090 | £222,090 | Rheoli Cofrestr Fabwysiadu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru |

Cwblhawyd adroddiad terfynol yr **Adolygiad Cyllid Cenedlaethol**, a gomisiynwyd gan Fwrdd Llywodraethu'r GMC, ym mis Mai. Roedd hyn yn nodi cyfres o argymhellion sy'n parhau i gael eu gweithredu, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cymorth Cyllid, sydd wedi datblygu fframwaith cyffredin i adrodd ar y gwariant cenedlaethol ar wasanaethau mabwysiadu ac i ystyried gweithio ar faterion ariannol eraill.

# Sylwadau terfynol

## Suzanne Griffiths MBE, Cyn-gyfarwyddwr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol



Pleser o'r mwyaf yw cyfrannu fy nheimladau at yr 11eg adroddiad blynyddol hwn gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.

Mae wedi bod yn fraint ac anrhydedd llwyr i fod yn Gyfarwyddwr cyntaf y GMC. Pan ddechreuais yn y swydd, roedd y GMC yn llythrennol, yn gysyniad mewn papur trafod. Daeth y sector at ei gilydd i weithio gyda mi i drawsnewid gwasanaethau a chreu'r cydweithrediad cyfoes, arloesol ac ymatebol a welwn heddiw, yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgrifiwyd yn Ymholiad Llywodraeth Cymru yn 2011 a arweiniodd at ei sefydlu.

Mae'r buddsoddiad rydyn ni wedi'i gyflawni yn golygu bod mwy o wasanaethau ledled Cymru, mae cymorth ar gael yn rheolaidd i deuluoedd, ac nid yw mabwysiadu bellach yn awtomatig yn golygu torri cysylltiadau'n gyfan gwbl â'r teulu biolegol. Mae cymorth i oedolion mabwysiedig a theuluoedd biolegol hefyd yn gwella. Mae'r GMC ymhell ar hyd y daith o foderneiddio mabwysiadu, oherwydd y cryfder a grëwyd gan bartneriaeth yr holl wasanaethau, sy'n cynnwys pobl ifanc mabwysiedig, mabwysiadwyr a theuluoedd biolegol, ac yn gwrando arnynt.

Fodd bynnag, nid oes lle am hunanfodlonrwydd. Gyda rhywfaint o eironi rwy'n cydnabod bod rhai o'r heriau presennol yr un fath â phan ddechreuon ni - mae rhai plant, yn enwedig y rhai mewn grwpiau brodyr a chwiorydd neu ag anghenion ychwanegol, yn aros yn rhy hir. Mae angen parhau i recriwtio mwy o fabwysiadwyr a datblygu cefnogaeth gynaliadwy dda i blant a phobl ifanc mabwysiedig, teuluoedd ac eraill y mae mabwysiadu cyffwrdd â hwy. Ochr yn ochr â hyn, mae cyd-destun y gwasanaeth yn fwyfwy cymhleth ac weithiau yn wrthwynebus.

Felly mae'r gwaith i wella'r GMC ymhellach, fel bod yng Nghymru, wasanaeth Mabwysiadu y gall fod yn galch ohono, ac un sy'n ymateb i oblygiadau mabwysiadu gydol oes, yn parhau.

Pan fydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, mi fyddaf wedi ymddeol ers ychydig fisoedd a bydd fy olynydd yn dechrau yn y swydd. Rwy'n dymuno'n dda iddynt wrth iddynt barhau â'r rôl bwysig hon a symud y GMC ymlaen i'w gam nesaf.

Hoffwn hefyd ddiolch i'n teuluoedd mabwysiadol, gofalwyr maeth a staff, a thalu teyrnged iddynt am eu hymrwymiad diwyro i ddarparu'r gorau i'n plant mwyaf agored i niwed. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i gydweithwyr y gorffennol a'r presennol, yn enwedig yn nhîm canolog y GMC a Chofrestr Fabwysiadu Cymru, am eu cefnogaeth a'u gwaith caled, yn gweithio ochr yn ochr â mi.

Gwasanaeth
**Mabwysiadu**
Cenedlaethol

National
**Adoption**
Service

**Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**
**Tîm Canolog** c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 475 Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW
F: 029 2087 3927
E: contact@adoptcymru.com
**www.adoptcymru.com**

@nas_cymru

@nationaladoptionservice